# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 101(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon: Dyfodol Cadw

(30 munud)

## 4 Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau

(60 munud)

**NDM6559** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, fel y'i tanlinellir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau a Rhagolwg.

Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau a Rhagolwg

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod camddefnyddio sylweddau yn fater sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd yn hytrach na'n fater troseddol.

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith:

a) bod adroddiad blynyddol 2017 ar strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' yn dangos y bu cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru;

b) bod nifer y bobl sy'n cwblhau triniaeth yn rhydd o sylweddau wedi gostwng; ac

c) bod llai o bobl yn dechrau triniaeth o fewn 20 diwrnod i'r dyddiad y cânt eu cyfeirio na dwy flynedd yn ôl.

**Gwelliant 3** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu capasiti gwasanaethau dadwenwyno haen 4 i gleifion mewnol a gwasanaethau adsefydlu preswyl, gan gydnabod nad yw hyn yn ddewis amgen i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar adfer o fewn y gymuned.

## 5 Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017

(15 munud)

**NDM6568** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2017.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(5 munud)

**NDM6552** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 6

b) Atodlen1

c) adrannau 7 - 12

d) adran 1

e) Teitl Hir

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

## 7 Cyfnod Pleidleisio

## 8 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(180 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y cafodd yr adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt eu rhestru yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a gytunwyd gan y Cynulliad ar 14 Tachwedd 2017.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Cyngor a gwybodaeth**

1, 4, 5, 28, 6, 7, 8, 9, 14, 15

**2. Rhoi sylw dyledus i gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

26, 2A, 2B, 2C, 2D, 2E, 2F, 2G, 2, 3A, 3B, 3C, 3D, 3E, 3F, 3, 25

**3. Gwelliannau canlyniadol a mân welliannau drafftio**

27, 32, 44, 45, 48, 49, 50, 51, 52, 53,

**4. Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol**

54, 56, 57, 58, 61

**5. Hawl i gynlluniau datblygu unigol**

29, 30, 31, 13, 33, 34, 35, 47

**6. Y diffiniad o blant sy'n derbyn gofal**

10

**7. Y Tribiwnlys Addysg**

11, 19, 20, 42, 46, 21

**8. Cadw'n gaeth am resymau iechyd meddwl**

62, 63

**9. Codi tâl o dan ddarpariaethau Rhan 2**

36, 37, 59, 41, 60

**10. Dysgu seiliedig ar waith**

16, 22, 23, 24

**11. Addysg Uwch mewn sefydliadau addysg bellach**

38, 43

**12. Adolygiadau Awdurdodau Lleol**

39, 40

**13. Darpariaeth Gymraeg**

64, 65, 66

**14. Gwasanaethau eirioli**

17, 18

**15. Personau ifanc nad oes ganddynt alluedd**

67

**Dogfennau Ategol**

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017